# Eiriolaeth droseddol annibynnol yng Nghymru a Lloegr

Adolygiad gan Syr Bill Jeffrey

**Mai 2014**

## Cyflwyniad

Mae eiriolaeth effeithiol yn ganolog i'n system wrthwynebus o gyfiawnder troseddol. Oni fydd achosion erlyn ac amddiffyn yn cael eu cyflwyno'n glir ac yn cael eu herio'n fedrus, gall arwain at anghyfiawnder ac mae hynny'n digwydd. Mae eiriolwyr effeithiol yn symleiddio yn hytrach na chymhlethu; gallant weld y darlun ehangach a galluogi eraill i wneud hynny; ac oherwydd hynny gallant gyfrannu at ganlyniadau cyfiawn, ac arbed amser y llys ac arian cyhoeddus.

Mae'r adolygiad hwn yn adlewyrchu pryderon am ansawdd eiriolaeth yn llysoedd troseddol Cymru a Lloegr ac oblygiadau yn y tymor hwy y tueddiadau cyfredol yn y ffordd y mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu darparu. Mae'r materion hyn o ddiddordeb dilys i'r Llywodraeth a'r cyhoedd yn gyffredinol. Ond byddant hefyd yn dylanwadu'n gryf ar strwythur a safonau proffesiynol y proffesiwn cyfreithiol yn y dyfodol.  Er bod yr adroddiad hwn wedi'i gomisiynu gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, mae'r casgliadau yr wyf wedi gallu dod iddynt yr un mor berthnasol i'r proffesiwn a'i reoleiddwyr ag y maent i'r Llywodraeth.

Rwyf wedi cael cyfarfodydd gyda'r canlynol ac wedi derbyn sylwadau ganddynt: Cyngor y Barnwyr Cylchdaith, y cyrff sy'n cynrychioli bargyfreithwyr, cyfreithwyr a gweithredwyr cyfreithiol, y prif reoleiddwyr a Phanel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfreithiol. Rwyf wedi ymweld â chanolfannau Llys y Goron a llysoedd ynadon mewn pum dinas, wedi treulio amser yn gwylio achosion ac wedi cwrdd â barnwyr, grwpiau eiriolwyr (gan gynnwys ymarferwyr iau), cwmnïau cyfreithwyr, siambrau bargyfreithwyr a sawl busnes sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth mewn ffyrdd llai confensiynol. Rwyf wedi cael barn academyddion ac addysgwyr yn y maes cyfreithiol a rhai sy'n darparu hyfforddiant proffesiynol parhaus i eiriolwyr. Rwyf hefyd wedi cael cyfarfodydd defnyddiol yn yr Alban a Seland Newydd, ac mae fy nyled yn fawr i'r rheini a roddodd o'u hamser i esbonio'r system yn y gwledydd hynny i mi. Yn olaf, rwyf wedi cael cryn gymorth gan Grŵp Cyfeirio bach, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r farnwriaeth, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith a Sefydliad Siartredig y Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol, sydd wedi rhoi eu barn a chyfrannu'u profiad o'u gwirfodd. Nid oes yr un o'r rhain yn gyfrifol am fy nghasgliadau.


Ceir rhestr lawn o'r rheini a roddodd eu barn i mi yn atodiad A. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt. Rwyf hefyd yn ymddiheuro ymlaen llaw i'r Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol Siartredig. Mae ganddynt ran gynyddol sylweddol yn y maes, yn arbennig yn y llysoedd ynadon. Ychydig iawn o

eiriolwyr y maent yn eu darparu ar hyn o bryd, ond roedd brwdfrydedd y rheini y cwrddais â nhw yn arbennig. Byddai wedi bod yn llafurus eu crybwyll ar bob cam o'r dadansoddiad a gobeithio y byddant yn maddau dywediadau fel "dwy ochr y proffesiwn" lle y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn.

Yr hyn a geisiais ei wneud oedd disgrifio “tirwedd” eiriolaeth droseddol fel y mae ar hyn y bryd a’r grymoedd sydd wedi mowldio’r broses dros y blynyddoedd diweddar (yn arbennig y rheini sy'n dylanwadu ar ansawdd), a chynnig barn ar y goblygiadau yn y tymor hwy. Yn anochel, mae hyn yn cynnwys elfen o ddyfalu, oherwydd nad oes modd dweud beth a ddaw yn y dyfodol ac oherwydd nad yw'n hawdd cael ffeithiau cadarn am y presennol a'r gorffennol diweddar. Rwyf hefyd yn cynnig rhai safbwyntiau am fesurau y gellid eu cymryd i wella pethau yn y tymor byrrach, petai consensws digonol i wneud hynny.

Roedd fy nghylch gorchwyl (yn atodiad B) yn benodol yn fy atal rhag ystyried cyfraddau tâl cymorth cyfreithiol a’r gofyniad am arian cyhoeddus. Mae’r materion hyn yn bynciau llosg ac yn destun dadl gyhoeddus ar hyn o bryd, ac mae llawer yn y proffesiwn yr wyf wedi siarad â hwy dros y misoedd diwethaf wedi'i chael yn anodd mynd y tu hwnt i'r toriadau i gymorth cyfreithiol fel esboniad am ansawdd gwael eiriolaeth ac yn wir unrhyw ddiffygion eraill yn y system. Yn fy marn i, rhan o’r stori yn unig yw cyfraddau ffioedd cymorth cyfreithiol. Mae'n amlwg bod yr incwm sydd i’w gael o wneud gwaith a ariennir gan y pwrs cyhoeddus yn effeithio ar ymddygiad. Ond credaf hefyd fod ffactorau eraill yn berthnasol sy’n haeddu sylw. Mewn system sy’n dal i gael ei hariannu'n bennaf gan y pwrs cyhoeddus, ni ellir anwybyddu arwyddocâd lefelau ffioedd cymorth cyfreithiol, ond i’r ffactorau eraill hyn y mae’r adroddiad hwn yn rhoi’r sylw pennaf.

Rwyf wedi cael cefnogaeth wych gan dîm bychan, sy’n cynnwys Farah Ziaulla, sydd wedi arwain y tîm yn ddeheuig, Terry Davies a Bridget Doherty. Maent wedi bod yn gyfranogwyr deallus yn ogystal â threfnwyr cyfarfodydd a chasglwyr gwybodaeth, ac mae fy nyled yn fawr iddynt. Ar ddechrau’r adolygiad, cyn y cafodd y tîm ei ffurfio, roedd Jenny Pickrell a Judith Evers o gymorth mawr i mi i roi cychwyn arni, ac rwy'n ddiolchgar iddynt hwythau hefyd.



## Crynodeb a'r Prif Gasgliadau

**Mae tirwedd eiriolaeth droseddol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi a throseddau y rhoddir gwybod amdanynt wedi lleihau. Mae llai o achosion yn cyrraedd y llysoedd troseddol. Mae mwy o ddiffynyddion yn pledio'n euog, ac yn gynt nag yn y gorffennol. Mae trefn y llys yn symlach. Mae cryn dipyn yn llai o waith i eiriolwyr ei wneud. Mae natur y gwaith yn wahanol, gyda mwy o achosion syml a llai o dreialon sy'n cael eu gwrthwynebu. Yn sector a ariennir gan y pwrs cyhoeddus (86%[1] o'r cyfanswm), nid yw'n talu gystal (paragraffau 1.3 i 1.6).**

**Mae newid sylweddol wedi bod yn nosbarthiad gwaith eiriolaeth yn Llys y Goron rhwng dwy ochr y proffesiwn. Mae llawer mwy o gyfreithwyr eiriol nag a oedd yn y blynyddoedd yn dilyn llacio hawliau ymddangos. Rhwng 2005-06 a 2012-13, cynyddodd canran yr achosion a oedd yn cael eu hariannu gan y pwrs cyhoeddus lle roedd yr amddiffyniad yn cael ei gynnal gan gyfreithiwr eiriol o 4% i 24% o dreialon a oedd yn cael eu gwrthwynebu ac o 6% i 40% o bleon o euogrwydd[2]. Mae'r ddau ffigur yn parhau i godi. Yn 2012-2013, bu cyfreithwyr mewnol Gwasanaeth Erlyn y Goron yn arwain yr erlyniad mewn oddeutu 45% o dreialon yn Llys y Goron[3] (paragraffau 1.8 – 1.10).**

### *Safonau, ansawdd a hyfforddiant*

**Does dim tystiolaeth ymchwil gadarn ynghylch ansawdd eiriolaeth. Ond gwelais anfodlonrwydd ynghylch y safonau presennol ymysg barnwyr (gan gynnwys rhai sydd â phrofiad hir fel cyfreithwyr) a oedd yn arbennig o ran ei gysondeb a'r cryfder a ddefnyddiwyd i'w fynegi. Byddai'n gamgymeriad anwybyddu'r safbwyntiau hyn (paragraffau 2.1 i 2.9, 4.1 a 4.2).**

**Mae'r gwahaniaeth yn y gofynion hyfforddiant gorfodol sy'n ddisgwyliedig ar gyfer bargyfreithwyr a chyfreithwyr eiriol yn adlewyrchu gwahaniaethau hanesyddol ym mhrif ffocws dwy ochr y proffesiwn. Ond nid yw'n adlewyrchiad ar lawer o'r cyfreithwyr eiriol**

---

[1] Data'r Weinyddiaeth Cyfiawnder/Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol – diffynyddion a gafodd eu traddodi neu eu hanfon i dreial yn Llys y Goron yn 2012 a oedd yn cael eu cynrychioli o dan y drefn cymorth cyfreithiol.
[2] Data'r Weinyddiaeth Cyfiawnder/Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
[3] Data Gwasanaeth Erlyn y Goron

**galluog iawn i ddweud bod y gwahaniaeth mor sylweddol fel ei fod bron yn amhosibl ei amddiffyn. Er mwyn cael ei alw i'r Bar, mae'n rhaid bod bargyfreithiwr wedi cwblhau 120 diwrnod o hyfforddiant eiriol penodol. Gall cyfreithiwr cymwysedig weithio yn Llys y Goron (yn amodol ar gael achrediad) gyda chyn lleied â 22 awr o hyfforddiant o'r fath. Hefyd, mae'r disgwyliadau o ran hyfforddiant datblygiad personol parhaus yn wahanol ar gyfer eiriolwyr yn Llys y Goron, nad oes dim sail resymegol drostynt. Mae hyfforddiant datblygiad personol parhaus o safon uchel wedi cael ei ddatblygu gan ddwy ochr y proffesiwn. Byddai llawer i'w ennill o gael dull cyffredin o weithredu (Adran 3 a pharagraffau 4.3 i 4.9).**

**Mae'r Cynllun Sicrhau Ansawdd i Eiriolwyr (QASA) wedi rhannu'r proffesiwn cyfreithiol a'i reoleiddwyr. Rwy'n ei chael yn anodd asesu a fydd cyfiawnhad dros y pryder proffesiynol am asesiadau barnwrol mewn treialon byw.  Rwy'n fwy tueddol na rhai pobl o fod â hyder y bydd barnwyr yn gallu gwahaniaethu yn eu gwaith rhwng eiriolaeth wael a chyfarwyddiadau annoeth a roddir gan gleientiaid. Mae'r Uchel Lys wedi awgrymu rhai newidiadau i'r cynllun i helpu i liniaru ar unrhyw risg. Rwy'n gobeithio y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith. Nid wyf yn amau cryfder yr achos dros ryw fath o gynllun sicrhau ansawdd, i sicrhau'r cyhoedd bod ffordd o atal eiriolwyr rhag cael y cyfle i weithredu y tu hwnt i'w cymhwysedd, ac i annog datblygiad proffesiynol parhaus (paragraffau 2.10 i 2.15 a 4.15 i 4.17).**

### *Y farchnad mewn eiriolaeth droseddol ar ochr yr amddiffyniad*

**Gwneir y prif benderfyniad ynghylch dewis eiriolwr, os nad yn uniongyrchol gan y cyfreithiwr sy'n cynrychioli'r diffynnydd, yna ar bwynt pan mae'r cyfreithiwr hwnnw i bob pwrpas yn gyfrifol am yr achos. Mae gan gyfreithwyr ddyletswydd broffesiynol i sicrhau bod eu cleientiaid mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau gwybodus am y gwasanaethau y maent eu hangen. Yn y gorffennol roedd hyn yn cael ei wneud drwy argymell aelod addas o'r Bar hunangyflogedig. Roedd hyn yn sicrhau elfen gref o gystadleuaeth, yn seiliedig ar enw da bargyfreithwyr.**

**Heddiw, mae'r ffin gystadleuol rhwng darparwyr mewnol ac arbenigwyr allanol. Mae'r system cymorth cyfreithiol yn darparu ffi sefydlog ar gyfer elfennau eiriolaeth ac ymgyfreitha cynrychiolaeth yr amddiffyniad. Credir yn eang bod gan gyfreithwyr gymhelliant masnachol i aseinio cyfreithiwr eiriol i gadw gwerth cyfun y ffi yn fewnol, yn enwedig os disgwylir i'r unigolyn bledio'n euog. Mae'r Bar yn credu y gallai hyn greu**

**gwrthdaro mewn buddiannau, y mae angen rhoi sylw iddo. Dywed cyfreithwyr eu bod yn aseinio eiriolwyr yn ôl yr hyn a fydd yn rhoi'r budd gorau i'r cleient. Mae'n well gan lawer o gleientiaid gael parhad yn eu cynrychiolaeth (paragraffau 5.8 i 5.12).**

**Fel y mae ar hyn o bryd, go brin y gellid dadlau bod y farchnad yn gweithredu'n gystadleuol neu mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r safon orau. Mae'r grŵp o ddarparwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawer gwell fel eiriolwyr arbenigol yn cymryd cyfran lai o'r gwaith, ac nid ydynt yn cael eu curo o ran pris nac ansawdd (paragraffau 5.22 i 5.24).**

**Mae cyfreithwyr, am resymau da, yn siŵr o fod yn ddylanwadol o ran dewis eiriolwr. Mae'r ffaith bod buddiannau masnachol mewnol bellach yn y fantol yn ei gwneud yn bwysicach byth bod y broses o aseinio eiriolwr yn gwbl ddi-fai. Mae hyn yn awgrymu y byddai'n fanteisiol ategu ac esbonio cyfrifoldebau proffesiynol cyfreithwyr yn y maes hwn (paragraffau 5.27 i 5.29).**

**Dull amgen, mwy radical, fyddai i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) ysgwyddo rôl fwy pendant yng nghyswllt caffael gwasanaethau eiriolaeth a gweithredu'n fwy fel gwarantwr ansawdd nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Pan mai arian cyhoeddus sy'n cael ei wario - fel ar gymorth cyfreithiol ac ar dreialon hirfaith heb eisiau – mae gan y cyhoedd ddiddordeb dilys yn ansawdd yr eiriolaeth. Un opsiwn fyddai i'r LAA gynnal rhestr neu banel o eiriolwyr cymeradwy ar gyfer amddiffyniadau sy'n cael cymorth cyfreithiol, fel y model sydd gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Byddai angen iddi gynnwys bargyfreithwyr a chyfreithwyr eiriol, ond gallai fod yn ffordd o ddelio â phryderon ynghylch gorgyflenwi ac amrywiaeth (paragraff 5.30).**

**Mae'n bosibl gor-ddweud y ddadl na all eiriolwyr nad ydynt ond yn ymddangos mewn pleon o euogrwydd yn Llys y Goron roi cyngor effeithiol ar bledio. Yn sicr, bydd gan rywun sydd â phrofiad o amddiffyn mewn treialon yn yr awdurdodaeth honno well syniad o'u deinameg, adwaith tebygol rheithgorau, a'r materion cyfreithiol sy'n debygol o godi. Ond mae cyngor cyfreithiol sy'n gyfystyr â chyngor ar sut i bledio yn cael ei roi gan gyfreithwyr o'r cam cyntaf un yn y broses, ar sail y ffeithiau a chryfder cynhenid achos yr amddiffyniad.**

**Os gwyddys y bydd diffynnydd yn pledio'n euog, ni allaf weld unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor iddo gael ei gynrychioli gan eiriolwr llai cymwys nag un a fyddai'n ei gynrychioli**

**petai'n pledio'n ddieuog. Mater sy'n peri mwy o bryder yw'r canlyniadau ymarferol ar gyfer y broses rheoli achos os oes ansicrwydd ynghylch sut y bydd y diffynnydd yn pledio, a bod y gwaith o aseinio eiriolwr yn cael ei ohirio tan yn hwyr iawn, i gadw'r gwaith eiriol yn fewnol ar gyfer eiriolwr nad yw ond yn ymddangos mewn pleon (paragraffau 5.13 i 5.17, 5.25 a 5.26).**

**Mewn egwyddor, does dim i atal y Bar rhag cystadlu ar hyn o bryd am gontractau cymorth cyfreithiol troseddol. I wneud hynny, byddai angen i set o siambrau ffurfio endid cyfreithiol y gallai'r LAA wneud busnes ag ef. Byddai angen iddynt hefyd ddarparu elfennau eraill o'r gwaith cynrychioli, gan gynnwys (ar hyn o bryd) rhoi cyngor ar ddyletswydd mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd ynadon a pharatoi achosion. Eisoes mae rhai "strwythurau busnes amgen" ar gael sy'n cael eu harwain gan fargyfreithwyr, ond mae'r mwyafrif helaeth o gynrychiolaeth droseddol yn cael ei ddarparu yn y ffordd draddodiadol.**

**Mae hyd yn oed y bargyfreithwyr hynny sy'n agored i'r syniad o newid y model i gystadlu am gontractau cymorth cyfreithiol yn gwrthwynebu'r ffaith y byddai'n rhaid iddynt gyflogi cymaint o bobl i wneud yr elfennau o'r gwaith nad ydynt yn ymwneud ag eiriolaeth fel y byddent yn colli natur annibynnol hanfodol y Bar hunangyflogedig. Petai'r LAA yn gallu contractio ar wahân ar gyfer rhoi cyngor ar ddyletswydd a gwaith ar ôl cyhuddo ac, mewn achosion syml, petai bargyfreithwyr iau yn gallu gweithredu fel 'un pâr o lygaid" gan baratoi achosion yn ogystal â gwneud gwaith eiriolaeth, ni fyddai'r gwrthwynebiad hwn mor gryf. Efallai y byddai'n bosibl i'r Bar gystadlu'n effeithiol heb newid eu model busnes presennol y tu hwnt i adnabyddiaeth. Gallai eu henw da a'u gorbenion isel eu rhoi mewn sefyllfa gref. Ni fyddai addasu'r system cymorth cyfreithiol fel yr wyf yn ei awgrymu yn syml, a byddai'n dibynnu i raddau helaeth ar weld unrhyw arwyddion o ddiddordeb yn cael eu dangos gan y Bar (paragraffau 5.31 i 5.43).**

### *Y cyflenwad o eiriolwyr troseddol*

**Mae nifer yr eiriolwyr sy'n ymarfer ymhob llys wedi cynyddu i bob golwg dros gyfnod pan oedd busnes y llysoedd ynadon wedi lleihau'n sylweddol a busnes Llys y Goron wedi amrywio o ran niferoedd, ond wedi lleihau mewn cymhlethdod. Bellach, mae llawer mwy o eiriolwyr troseddol nag y mae gwaith ar eu cyfer. Mae tanddefnyddio yn gostwng cyflogau**

**cyfartalog, ac yn ei gwneud yn fwy anodd byth rheoli gostyngiadau yn y ffioedd cymorth cyfreithiol (paragraffau 6.1 i 6.4).**

**Does dim ffigurau dibynadwy ar gael ar gyfer aelodau newydd i'r Bar troseddol. Ond y mae arwyddion cryf ei fod yn broffesiwn o bobl hŷn, gyda llai o aelodau iau nag yn y gorffennol. Nid yw'r ddarpariaeth ganddo i wneud gwaith cynllunio'r gweithlu o'r math a wneir gan fusnesau a reolir yn y sectorau cyhoeddus a phreifat (paragraffau 6.5 i 6.8). Mae llawer mwy o raddedigion y cwrs BPTC (Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol ar gyfer y Bar) ar gael nag o ddisgybleddau ar eu cyfer. Ni allaf weld bai ar resymeg Gweithgor Wood wrth iddynt wrthod y syniad o roi terfyn ar y niferoedd sy'n sefyll y BPTC. Ond mae problem lefelau uchel o ddyled a myfyrwyr yn cael eu siomi oherwydd prinder disgybleddau'n parhau, ac mae'n debyg ei fod yn fwyaf difrifol yng nghyswllt trosedd (paragraffau 6.10 i 6.15).**

**Mae'n ymddangos y bydd rhai o'r tueddiadau hyn yn effeithio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yng nghyswllt amrywiaeth. Y mae pryder realistig bod y gwaith da sydd wedi cael ei wneud yn y maes hwn yn y gorffennol cymharol ddiweddar mewn perygl o gael ei ddadwneud, gan droi'n ôl at broffesiwn llai amrywiol o ran ethnigrwydd a mwy breintiedig yn gymdeithasol. Dyma un o'r materion y dylai unrhyw newid radical i strwythur y proffesiwn geisio mynd i'r afael ag ef (paragraffau 6.18 i 6.20).**

### *Sut mae'r system yn gweithio a'i heffaith ar ansawdd*

**Gelyn eiriolaeth dda yw paratoi annigonol. Mae cyfuniad o oedi wrth aseinio eiriolwyr (o ran yr amddiffyniad a'r erlyniad) ac ansicrwydd ynghylch dyddiadau treialon yn golygu bod y system yn fwy ansefydlog, ac nid yw hynny'n gydnaws ag eiriolaeth o ansawdd da. Yr hyn sydd ei angen yw aseinio eiriolwr yn brydlon mewn cynifer o achosion â phosibl, a'r rhagolygon yn dda mai'r eiriolwr hwnnw fydd yn cynnal y treial. Roedd rhywfaint o gonsensws ymysg yr ymarferwyr amddiffyn yr ymgynghorais â hwy y dylai eiriolwyr ar y ddwy ochr gael eu haseinio oddeutu pythefnos cyn y Gwrandawiad Pledio a Rheoli Achos. Byddai hyn yn gweithio dim ond petai Gwasanaeth Erlyn y Goron yn chwarae'i ran a phetai rhagor o sicrwydd ynghylch dyddiadau treialon. I wneud y defnydd gorau o amser y llys, mae rhywfaint o hyblygrwydd wrth restru treialon yn anochel ond mae'r system "rhestr rybudd" fel y'i gweithredir yn y rhan fwyaf o'r wlad yn ei gwneud yn anodd iawn i eiriolwyr gynllunio'u dyddiaduron, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd newidiadau yn y sawl a**

**fydd yn cynrychioli ar y funud olaf. Mae adolygiad Syr Brian Leveson o ymarfer a gweithdrefnau yn y llysoedd troseddol yn rhoi cyfle i ystyried y materion hyn yn fwy manwl (adran 7).**

***Y tymor hwy***

**Mae grymoedd a thueddiadau mwy hir dymor ar waith a allai olygu goblygiadau mawr i ddyfodol ymarfer troseddol yn y proffesiwn cyfreithiol.**

**Mae ochr cyfreithwyr y proffesiwn yn wynebu cyfnod o newid oherwydd y newidiadau i gymorth cyfreithiol. Bydd hyn mae'n debyg yn arwain at gwmnïau'n uno ac ymddangosiad practisau troseddol mwy ond llai ohonynt. Ni fydd hyn yn hawdd. Ond mae natur gyffredinol y newid yn cael ei deall yn weddol (paragraffau 9.2  a 9.3).**

**Nid yw dyfodol y Bar hunangyflogedig mor glir. Os bydd y tueddiadau a ddisgrifir yma yn parhau'n ddi-baid, bydd y Bar yn ymgymryd â chyfran lai o'r gwaith sydd ar gael. Bydd nifer y bargyfreithwyr ifanc sy'n cael eu derbyn yn gostwng eto, a byddant yn ei chael yn fwy anodd byth cael profiad cynnar o waith symlach y mae'n rhaid ei gael i feithrin eu sgiliau. Mewn cyferbyniad, mae rhai arwyddion y gallai'r tueddiad oddi wrth y Bar hunangyflogedig fod yn troi neu y bydd modd ei droi. Ond nid yw hyn yn gwbl sicr, ac os – fel y mae'n ymddangos – nad oes gan y Bar ei hun hyder yn nyfodol gwaith troseddol, ac nad ydynt yn barod i newid i gystadlu am y gwaith, bydd parhad tueddiadau diweddar yn dod yn broffwydoliaeth hunangyflawnol. Os felly, wrth i'r genhedlaeth bresennol o fargyfreithwyr troseddol profiadol symud tuag at ymddeoliad, nid yw'r pryderon am "gronfa dalent" y dyfodol ar gyfer barnwyr a bargyfreithwyr troseddol, yn fy marn i, yn rhywbeth i'w cymryd yn ysgafn (paragraffau 9.4 i 9.11).**

**Mae hyn yn bwysig, oherwydd mae cryfderau penodol y Bar troseddol yng Nghymru a Lloegr yn ased cenedlaethol sylweddol, na fyddai'n hawdd ei ddyblygu. Mae o fudd cenedlaethol penodol hefyd i gael nifer digonol o eiriolwyr ar y lefel uchaf i ymgymryd â'r treialon mwyaf difrifol a chymhleth, ac uwch farnwyr â phrofiad troseddol sylweddol.**

**Ni fyddai ceisio troi'r cloc yn ôl, er enghraifft drwy ailsefydlu hawliau unigryw i ymddangos yn Llys y Goron, yn ymarferol nac yn ddymunol. Mae gan gyfreithwyr eiriol ran werthfawr a**

**chadarn yn y maes hwn. Y dull doeth i'w fabwysiadu yw buddsoddi yn eu sgiliau a'u proffesiynoldeb (paragraffau 9.12 a 9.13).**

**Ond, efallai y bydd yn werth edrych yn fwy radical ar strwythur y rhan hon o'r proffesiwn cyfreithiol i'r dyfodol. Ym mharagraff 9.18, yn y gobaith y bydd yn ysgogi trafodaeth yn y proffesiwn a chyda'i reoleiddwyr, rwy'n disgrifio model posibl lle y byddai'r penderfyniad i ddod yn eiriolwr arbenigol yn cael ei gymryd yn ddiweddarach yng ngyrfa cyfreithiwr; byddai Bar troseddol llai yn canolbwyntio ar achosion lle y byddai'n amlwg bod yn rhaid cael sgiliau eiriol arbenigol; a byddid yn cael profiad cynnar o eiriolaeth yn rhywle arall.**

**Dyma fanteision posibl model o'r fath – byddai dosbarthiad y gwaith rhwng dwy gangen y proffesiwn yn gliriach a byddai llai o gystadleuaeth; byddai ymarferwyr troseddol ifanc yn cael eu galw i'r Bar gyda rhywfaint o brofiad eiriol blaenorol; ac efallai y byddai problem gormod o unigolion ar y BPTC a dyled ymysg y graddedigion siomedig arno yn lleihau ac yn diflannu efallai'n gyfan gwbl.**

**Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi annog y Bar troseddol i ystyried lle y mae am fod mewn deng mlynedd. Yn fy marn i, mae ailystyried dyfodol y Bar troseddol fel hyn yn angenrheidiol, a hynny ar fyrder. Efallai nad y ddwy ffordd eang ar gyfer datblygu sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn – addasu'r model busnes i gystadlu am waith cymorth gyfreithiol lle y mae pawb yn cael yr un cyfle, ac ailstrwythuro i adnodd llai, mwy arbenigol, - yw'r unig bosibiliadau. Ond i mi, nid yw parhau fel yr ydym ar hyn o bryd, mewn ymdrech i gadw, mewn amodau sydd wedi newid yn sylweddol, pob agwedd ar y model fel yr oedd flynyddoedd yn ôl, yn opsiwn ymarferol (paragraffau 9.14 i 9.22).**

### *Argymhellion*

1. **Gall goblygiadau'r tueddiadau mewn eiriolaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fod yn sylweddol i'r proffesiwn cyfreithiol ac – er gwaetha'r teimladau cryf y maent yn eu hysgogi – byddwn yn annog y proffesiwn i chwilio am gonsensws ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â nhw (Casgliad).**

2. **Dros amser, dylid datblygu disgwyliad y bydd pawb sy'n ymarfer fel eiriolwyr yn Llys y Goron yn cael hyfforddiant cyffredin. Ni fyddai'n rhaid iddo fod mor anodd â**

**hyfforddiant y Bar, ond dylai fod yn sylweddol well na'r gofyniad cyfredol ar gyfreithwyr sy'n ceisio hawliau i ymddangos mewn llys uwch (paragraff 4.6)**

**3. Yn dilyn yr Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol, dylai'r proffesiwn a'r rheoleiddwyr ystyried tynnu'r elfen eiriolaeth gyfyngedig o'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol presennol a datblygu, yn hytrach, gwrs eiriolaeth dewisol mwy sylweddol ar gyfer cyfreithwyr dan hyfforddiant (neu gyfreithwyr cymwysedig hyd yn oed) sy'n ystyried gyrfa mewn eiriolaeth. Gallai cwblhau'r cwrs fod yn orfodol yn y dyfodol ar gyfer y rheini a fydd yn ceisio achrediad ar gyfer yr uwch lysoedd (paragraff 4.7).**

**4. Dylai'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) a Chymdeithas y Gyfraith ystyried ffyrdd cymesur o ddarparu ar gyfer cyfreithwyr eiriol mewn uwch lysoedd yr un profiad dan oruchwyliaeth y mae disgybledd yn ei roi i fargyfreithwyr, gan gynnwys ymarfer a phrofiad cynnar (paragraff 4.8).**

**5. Dylai'r proffesiwn gydweithio, ochr yn ochr â'r rheoleiddwyr, i ddatblygu disgwyliadau sylfaenol cyffredin ar gyfer hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i eiriolwyr yn Llys y Goron. Gallai dull cyffredin o weithredu ddatblygu'r gwaith rhagorol sydd eisoes yn cael ei wneud gan y Cyngor Hyfforddiant ym maes Eiriolaeth (ATC), gan gynnwys Porth Eiriolaeth yr ATC, Cymdeithas y Cyfreithwyr – Eiriolwyr yn yr Uwch Lysoedd (SAHCA) ac adran Eiriolaeth Cymdeithas y Gyfraith (paragraff 4.9).**

**6. Dylai'r proffesiwn ystyried mabwysiadu'n gynnar system "docynnu" ar gyfer eiriolwyr amddiffyn, system sydd eisoes ar waith ar gyfer y farnwriaeth a Gwasanaeth Erlyn y Goron, lle y mae'n rhaid i'r rheini sy'n ymddangos mewn achosion o drais rhywiol a cham-drin rhywiol ddangos eu bod wedi cael hyfforddiant perthnasol. Byddai mynd ymhellach drwy ymestyn gofyniad o'r fath i'r rhan fwyaf o achosion sy'n cynnwys tystion bregus yn arwain at oblygiadau ehangach. Ond byddai'n gwneud synnwyr mewn egwyddor ac efallai y mae'n rhywbeth yr hoffai barnwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r proffesiwn ei ystyried (paragraff 4.11).**

**7. Dylai'r SRA a Chymdeithas y Gyfraith ystyried pa gamau rheoleiddio neu gamau eraill y gellid eu cymryd i esbonio ac i ategu cyfrifoldebau proffesiynol cyfreithwyr wrth aseinio eiriolwyr ac wrth roi cyngor ar sut i bledio (paragraff 5.29).**

**8. Dylai’r Llywodraeth ystyried a ddylai'r LAA gynnal rhestr o eiriolwyr cymeradwy ar ran yr amddiffyniad mewn achosion a ariennir gan y pwrs cyhoeddus, ar sail model panel bargyfreithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron sy’n cael eu briffio i gynrychioli'r erlyniad (paragraff 5.30).**

**9. Dylai’r Llywodraeth bwyso a mesur y goblygiadau i'r system cymorth cyfreithiol o gontractio'n uniongyrchol gyda'r Bar ar gyfer cynrychioli ar ochr yr amddiffyniad, gan gynnwys y pwys a roddir ar alluogrwydd mewn eiriolaeth ac ystyried pa mor ddymunol ac ymarferol, mewn rowndiau contractio yn y dyfodol, fyddai gwahanu'r gwaith o roi cyngor mewn gorsafoedd heddlu a gwaith cynrychioli ar ôl cyhuddo (paragraff 5.43).**

**10. Yn ei adolygiad o ymarfer a gweithdrefnau yn y llysoedd troseddol, efallai y bydd Syr Brian Leveson am ystyried a oes newidiadau i Reolau'r llys neu gyfarwyddyd barnwrol a fyddai'n helpu i sicrhau bod eiriolwyr yn cael eu haseinio'n brydlon, ac effaith y system "rhestr rybudd” o restru treialon ar gysondeb ac ansawdd eiriolaeth (paragraff 7.12).**

**11. Dylai’r Llywodraeth, y rheoleiddwyr a’r cyrff cynrychiadol ystyried a ellir gwneud mwy, heb or-fanylu, i ddatblygu data perthnasol ar eiriolaeth ac eiriolwyr troseddol (paragraff 10.2).**

**12. Dylent hefyd edrych yn garedig ar yr achos dros ymchwil yn y maes hwn, ar sut y mae'r farchnad eiriolaeth yn gweithio – a fyddai’n elwa o ddadansoddiad economaidd trylwyr - ac ar y cwestiwn dyrys o ansawdd (paragraff 10.3).**

Filename: Welsh translation of summary and recommendations 19 May 2014.doc
Directory: \\DOM1\data\HQ\102PF_E\Home\acecil-smith\AA Web docs can be deleted\05 May
Template: C:\Documents and Settings\bdoherty\Local Settings\Temporary Internet Files\JR_template.dot
Title: Eiriolaeth droseddol annibynnol yng Nghymru a Lloegr
Subject:
Author: Ministry of Justice
Keywords: Ministry of Justice, report,
Comments:
Creation Date: 20/05/2014 10:44:00
Change Number: 2
Last Saved On: 20/05/2014 10:44:00
Last Saved By: ACecil-Smith
Total Editing Time: 4 Minutes
Last Printed On: 20/05/2014 10:44:00
As of Last Complete Printing
Number of Pages: 12
Number of Words: 4,115 (approx.)
Number of Characters: 20,740 (approx.)